

## Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru Mawrth 2020

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ymgynghoriadau a chynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein [calendr i ddod](#).

### Yr economi a'r farchnad lafur

Rydym wedi parhau i ddiweddarau [ystadegau economaidd allweddol](#) yn fisol. Ym mis Ionawr gwnaethom gyhoeddi ystadegau wedi'u diweddarau ar [ddata chwarterol ar y farchnad lafur o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#), [dangosyddion allbynnau tymor byr](#), [demograffeg busnes](#) a [phroffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd](#). Ym mis Chwefror gwnaethom gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am [gynnyrch domestig gros \(CDG\)](#).

Amcangyfrif CDG yw'r trydydd a gynhyrchwyd o gyfres arbrofol newydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rydym yn parhau i gasglu barn ynghylch yr angen i lunio CDG a dangosyddion allbynnau tymor byr (DATB). Fel cysyniad, mae CDG yn debyg i DATB. Os ydych yn defnyddio'r naill ffynhonnell neu'r llall, hoffem glywed gennych. Yn benodol:

- Sut rydych yn defnyddio'r ystadegau?
- Pa mor bwysig ydynt i chi?
- A oes enghreifftiau lle rydych yn defnyddio DATB ond na fydech yn gyfforddus yn defnyddio CDG?

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch [ystadegau.economi@llyw.cymru](mailto:ystadegau.economi@llyw.cymru)

### Addysg

Ym mis Ionawr gwnaethom gyhoeddi ein diweddariad chwarterol ar [nifer y bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\)](#) a'n diweddariad blynyddol ar [fyfyrwyr mewn addysg uwch](#).

Ym mis Chwefror gwnaethom gyhoeddi ein hystadegau blynyddol ar ddysgwyr wedi'u cofrestru a'u gweithgareddau mewn [addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol](#). Gwnaethom hefyd gyhoeddi ystadegau blynyddol ar gyflawniadau dysgwyr ôl-16 yng Nghymru mewn dau ddatganiad. Yn flaenorol, roedd ein datganiad ar [fesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion](#) hefyd yn cynnwys

canlyniadau i ddysgwyr mewn addysg bellach. Erbyn hyn, caiff ystadegau arbrofol ar gyfer dysgwyr mewn addysg bellach a'r chweched dosbarth mewn ysgolion eu casglu gyda'i gilydd yn ein datganiad ar [fesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16](#).

Rydym wrthi'n diweddarau'r ffordd rydym yn cyflwyno gwybodaeth yn ein bwletinau ystadegol ar [Addysg Gychwynnol i Athrawon](#) a'r [Iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch](#). Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw adborth sydd gennych ar y bwletinau presennol, neu'r hyn yr hoffech ei weld yn y dyfodol. Cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i flwch post yr [Ystadegau ar Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr](#).

## Tai

### Allbynnau ystadegol tai

Mae'r holl ddatganiadau ar gael ar y [wefan Ystadegau ac Ymchwil](#).

### Y Grŵp Gwybodaeth am Dai (GGT)

[Cynhaliwyd seminar flynyddol y Grŵp Gwybodaeth am Dai ym mis Ionawr 2020](#) ar y thema 'Tai ac Iechyd'. Mae'r papurau a'r cyflwyniadau ar gael ar y wefan.

### Amcangyfrifon o'r angen a'r galw am dai

Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio amcangyfrifon wedi'u diweddarau (seiliedig ar ffigurau 2019) o'r [Angen Ychwanegol am Dai](#) yng Nghymru – yn dilyn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd mwy cyfredol. Bydd angen cyhoeddi'r amcangyfrifon wedi'u diweddarau o'r angen am dai yn ystod gwanwyn 2020 er mwyn bwydo i mewn i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

### Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 (ACTC)

Ym mis Hydref gwnaethom gyhoeddi'r adroddiad ar [Effeithlonrwydd Ynni Anheddau](#) a'r [tablau cysylltiedig](#). Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar gymhorthion, addasiadau, a hygyrchedd y stoc anheddau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Ar ôl hynny, byddwn yn dechrau gwneud gwaith dadansoddi ar ein hadroddiad olaf a gynlluniwyd ar gyfer arolwg 2017-18: System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS). Disgwylir cyhoeddi dangosyddion Tlodi Tanwydd ar lefel yr Awdurdod Lleol yn fuan, a bydd adnodd amcanestyniadau Tlodi Tanwydd yn dilyn.

Rydym wedi diweddarau ein [prif adroddiad](#) i gynnwys y ffigurau diweddaraf ar gyfer Lloegr a'r Alban ar gyfer cyfnod sy'n cyfateb i gyfnod yr arolwg.

Lansiwyd ein [hadroddiad ar gostau tai o ansawdd](#) (Saesneg yn unig) gwael BRE, Iechyd Cyhoeddus Cymru, LIC (Saesneg yn unig), ac fe'i cyflwynwyd yn seminar y Grŵp Gwybodaeth am Dai ar 30 Ionawr (gweler uchod). Mae BRE, ar y cyd â gwledydd y DU, hefyd wedi cyhoeddi adroddiad ar [stoc dai'r Deyrnas Unedig](#) (Saesneg yn unig).

Mae'r tîm yn parhau i gyfrannu at gamau perthnasol gwaith Grŵp Ystadegau Tai Trawslywodraethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a gwaith gweinyddu ar y cyfrifiad.

Rydym yn gweithio gyda Thîm Safon Ansawdd Tai Cymru i ddarparu data o'r arolwg a chymorth gyda gwaith dadansoddi ar gyfer eu gwaith i ddatblygu Safon Ansawdd Tai Cymru ar ôl 2020. Yn yr un modd, rydym yn gweithio gyda Thîm Modelau Arloesol a Datgarboneiddio Tai i ddatblygu a darparu rhaglen o weithgareddau i ddatgarboneiddio pob cartref yng Nghymru erbyn 2050.

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch polisïau mewn perthynas â gwella/ehangu'r ystadegau ar Dlodi Tanwydd a lunnir gan Llywodraeth Cymru (y mae adroddiadau BEIS yn dylanwadu arnynt), felly os oes gennych unrhyw awgrymiadau, [cysylltwch â ni](#).

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y set o ddata ACTC nad oedd yn cael eu datgelu ar gael ar Archif Data'r DU, gyda data manylach ar gael yn uniongyrchol oddi wrth dîm ACTC. Bwriadwn ddarparu data ACTC ar SAIL fel bod modd i ymchwilyr gael gafael ar ddata wedi'u hanonymeiddio o dan drwydded arbennig.

### **Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (ADSD)**

Mae data ADSD presennol wedi cael eu symud i Lwyfan e-Ymchwil Diogel y DU Llywodraeth Cymru (UKSeRP), sydd bellach yn fyw ac yn dechrau cael ei ddefnyddio gan dimau ystadegau ehangach hefyd. Mae hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu caniatáu i ymchwilyr gael gafael ar setiau data Llywodraeth Cymru drwy'r llwyfan hwn.

Caiff adroddiad ar gynnydd ei lunio yn y misoedd nesaf, a fydd yn pwysu a mesur y prosiect ADSD presennol, ac yn tynnu sylw at feysydd polisi lle y bydd angen i ADSD gynnig cymorth, a'r data sydd eu hangen i wneud hynny. Rydym yn gweithio gydag Uned Ymchwil Data Gweinyddol Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi achosion busnes i SYG ar gyfer rhannu data perthnasol o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol, fel gwybodaeth am y Dreth Gyngor. Rydym hefyd yn ystyried defnyddio ffynonellau data eraill o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol, megis data BEIS ar ddefnydd ynni.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwaith dadansoddiol y gallem ei ystyried, neu os hoffech ddefnyddio'r data ar gyfer eich prosiect eich hun, [cysylltwch â ni](#).

### **Iechyd**

Rydym wedi cyhoeddi ein hystadegau blynyddol ar wasanaethau cymdeithasol. [Mae'r blog hwn yn disgrifio'r newidiadau rydym wedi eu gwneud i'n ffordd o gyhoeddi'r data.](#)

Rydym wedi cyhoeddi [data newydd yn dangos nifer y bobl a gadwyd o dan Adrannau 135 ac 136 yng Nghymru.](#)

[Mae ein hadroddiadau ar bresgripsiynau hefyd wedi'u cyfuno mewn un adroddiad](#), sy'n rhoi cyfres fwy ystyrlon o ystadegau ar bresgripsiynau yng Nghymru. Mae dangosfwrdd rhyngweithiol yn cyd-fynd â'r adroddiad, sy'n eich galluogi i edrych ar y data ar lefel y bwrdd iechyd lleol.

## Cyhoeddiadau

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar [wefan Ystadegau ac Ymchwil](#).

Am ragor o wybodaeth e-bostiwrch [ystadegau.iechyd@llyw.cymru](mailto:ystadegau.iechyd@llyw.cymru).

## Arolwg Cenedlaethol

Cyhoeddwyd y prif ganlyniadau o arolwg 2018-19 ar 18 Mehefin 2019. Mae'r rhain, ynghyd â'r holl fwletinau a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ar gael ar [wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#).

Rydym wedi cyhoeddi dau fwletin ers y diweddariad chwarterol diwethaf:

- [Gofal plant](#) – 18 Rhagfyr 2019
- [Gwasanaethau Meddygon Teulu, ysbytai a tu allan i oriau](#) – 18 Chwefror 2020

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol 2019-20 ar hyn o bryd, a bydd y canlyniadau ar gael ym mis Mehefin 2020.

Gellir dod o hyd i'r tablau a'r siartiau sy'n cwmpasu holl bynciau'r arolwg, a blynyddoedd blaenorol, ar ein [Dangosydd canlyniadau](#). Os oes gennych unrhyw gwestiynau, [e-bostiwrch ni](#).

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Cyhoeddwyd MALIC 2019 ar 27 Tachwedd 2019, ac ar y diwrnod hwnnw gwnaethom ddiweddarau ein [Hadroddiad Canlyniadau](#), [data StatsCymru](#) a'r [adnodd rhyngweithiol](#). Yng nghanol mis Chwefror gwnaethom gyhoeddi data fesul oedran ar amddifadedd incwm a chyflogaeth, a dangosyddion absenoldeb mynych.

Mae nifer o allbynnau cysylltiedig ar y gweill o hyd, a byddwn yn diweddarau ein "[MALIC 2019 amserlen o allbynnau](#)" pan fydd ein cynlluniau yn fwy cadarn. Dyma'r hyn a gynllunnir:

- diweddarau'r canllaw ar ddata dangosyddion,
- dod â'r data ynghyd sy'n ategu'r gwaith dadansoddi ar amddifadedd hirsefydlog,
- gwneud gwaith dadansoddi ar amddifadedd yn ymwneud â phlant.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwrch [ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru](mailto:ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru) i danysgrifio.

## **Trafnidiaeth**

Ym mis Chwefror gwnaethom gyhoeddi ystadegau ar [Ddefnydd gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019](#).

## **Y Gymraeg**

Ar 22 Ionawr cyhoeddwyd canlyniadau'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar y Gymraeg am y flwyddyn o fis Hydref 2018 hyd at fis Medi 2019](#) ar ein gwefan.

[Cyhoeddwyd dadansoddiad ymchwiliol o berfformiad dysgwyr yn ôl nodweddion ar lefel dysgwyr ac ar lefel ysgolion, gan gynnwys nodweddion sy'n ymwneud â'r Gymraeg](#), fel erthygl ystadegol ar wefan Llywodraeth Cymru ar 13 Chwefror.

## **Manylion cyswilt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru**

### **Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau**

E-bost: [desg.ystadegau@llyw.cymru](mailto:desg.ystadegau@llyw.cymru)

Ffôn: 03000 255050

### **Pwnc-benodol**

[Cysylltiadau ar gyfer ystadegau](#)

**Twitter** 

[YstadegauCymru](#)

### **Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru**

[Newyddion a hysbysiadau](#)

### **Ymholiadau gweinyddol**

E-bost: [gweinydduggd@llyw.cymru](mailto:gweinydduggd@llyw.cymru)